

Dyma rai cyhoeddiadau diddorol a gyhoeddwyd yn ddiweddar. Gofynnwch amdanynt yn eich llyfrgell leol neu'n well fyth prynnwch gopiâu.

**OWEN WILLIAMS O FÔN**  
(Owen Williams o'r Cwyrnt)  
1774-1839  
Arloeswr Canu Cynulleidfaol  
Huw Williams  
Cymdeithas Gelfyddydau Gogledd  
Cymru a Chyngor Bwrdeistref  
Ynys Môn, 1993  
Pris: £2.00

Yr hyn a geir yn y gyfrol 28 tudalen hon yw gwerthfawrogiad o fywyd a gwaith Owen Williams o Fôn a baratowyd ar gyfer yr achlysur o ddadorchuddio plac coffa iddo yn Llannerch-y-medd ar Ragfyr y 7fed, 1993.

Fel cerddor y disgrifir Owen Williams yn y geiriaduron bywgraffyddol ond dengys y gyfrol hon ei fod mewn gwirionedd yn llawer mwy na hynny. Yn ystod ei oes cyhoeddodd Owen Williams ddau lawlyfr cerddorol, sef *Egwyddor-ddysg Ragegorawl neu Gatecism ar Reolau Cerddoriaeth* a gyhoeddwyd yn 1817 ac *Egwyddorion Canu, wedi eu gosod yn Gymraeg yn ôl trefniadau Italaidd a Seisnig, mewn modd hawdd i hyfforddi pob oedran o Ddysgaduraiaid y Cymry yn yr hen gelfyddyd beraidd-sain Cerdd Dafod* a gyhoeddwyd yn 1818. Yr hyn sydd yn arbennig o ddiddorol am y gyfrol olaf hon yw fod ynddi wyth o ddarluniau o waith Hugh Hughes, 1790-1863, yr arlunydd o Landudno. Yn niwedd 1818 cyhoeddwyd y ddwy gyfrol yn un.

Fe gyhoeddodd Owen Williams dri chasgliad pwysig o alawon cysegredig hefyd. Cyhoeddwyd y cyntaf ohonynt mewn dwy gyfrol dan y teitl *Brenhinol Ganiadau Sion* yn 1819. Yr oedent yn gwerthu am gini y copi! Cyhoeddwyd y nesaf, sef *Psalmodia Cambro Britannica, or the original English and Welsh Psalmody, containing upwards of one hundred and fifty Psalm tunes* . . . yn 1826. Cyhoeddwyd ei gasgliad olaf, sef *The Harp of David King of Israel or Royal Psalms of Zion* . . . yn 1839.

Addurnir y gyfrol â saith o luniau diddorol. Mae'r awdur yn adnabyddus fel ein pennaf awdurdod ar hanes cerddoriaeth yng Nghymru. Mae o hefyd yn un o sylfaenwyr Cymdeithas Bob Owen a'r *Casglur* hefyd.

**LLYFRAU CYMRAEG**  
1250-1400

Darlith Syr John Williams  
1992

Daniel Huws

Llyfrgell Genedlaethol Cymru,  
1993

Pris: £1.00

Mae Darlith Syr John Williams

16

# O'R WASG

## 'OWEN WILLIAMS O FÔN'

### Arloeswr Canu Cynulleidfaol

HUW WILLIAMS, M.A.


Cymdeithas Gelfyddydau Gogledd Cymru  
Cyngor Bwrdeistref Ynys Môn  
1993

yn gyfres o ddarlithoedd a noddir gan Llyfrgell Genedlaethol Cymru i gofio am ei phrif noddwr a'i sylfaenydd Syr John Williams, 1840-1926, barwnig a meddyg i'r teulu brenhinol.

Yn y ddarlith nodedig hon y mae Daniel Huws yn sôn am y llyfrau Cymraeg cynharaf sydd gennym, gan gynnwys *Llyfr Du*

*Caerfyrddin, Llyfr Coch Hergest, Llyfr Aneirin a Llyfr Taliesin*. Sôn am lawysgrifau y mae mewn gwirionedd ac nid am gyfrolau printiedig. Mae'n debyg mai erbyn tua dechrau'r 20fed ganrif y daeth 'llyfr' i olygu rhywbeth printiedig yn unig. Yng nghwrs y ddarlith ceir sôn am tua pedwar ugain o lyfrau, neu ddarnau o

## LLYFRAU CYMRAEG

  
1250-1400

DANIEL HUWS

DARLITH SYR JOHN WILLIAMS  
1992

lyfrau, a'r hyn sydd yn peri syndod i rywun yw fod haelioni mawr Syr John Williams, a nerth ei berswâd, wedi bod yn gyfrifol am y ffaith fod dros hanner y llyfrau hyn yn eiddo i'r Llyfrgell Genedlaethol heddiw.

Mae Daniel Huws yn dyddio'r llyfrau y mae'n cyfeirio atynt yn y cyfnod 1250-1400. Y mae hefyd yn dweud fod yna lyfrau Cymraeg wedi bodoli yn y cyfnod cyn 1250 ond eu bod wedi diflannu (neu heb gael eu darganfod eto!). Hyd ei ymdeoliad yn ddiweddar bu Daniel Huws ar staff Adran Llawysgrifau a Chofysgrifau y Llyfrgell Genedlaethol yn Aberystwyth ac yn sgil hynny cafodd gyfle godidog i ddod i adnabod y llyfrau cynnar yn ogystal ag i ddod yn ymwybodol o gymwynas aruthrol Syr John Williams. Cyfrol 21 tudalen yw'r gyfrol hon ac un o'i phrif nodweddion yw ei bod yn arbennig o ddarllenadwy.

\* \* \* \*

### NEWSPLAN

Report of the Newsplan project in  
Wales

Adroddiad ar gynllun Newsplan  
yng Nghymru  
Beti Jones

Cynllun Taleithiol Llyfrgelloedd  
Cymru a'r Llyfrgell Brydeinig  
1994

Pris: £30.00

Y mae papurau newydd yn ffynhonnell amhrisiadwy ar gyfer pob math o ymchwil i bynciau megis hanes lleol a theuluol, hanes cymdeithasol, hysbysebu a chwaraeon. Oherwydd eu natur nid oes disgwyl iddynt bara'n hir, ac y mae'r ffaith fod newidiadau cemegol a defnydd cyson yn golygu fod yr hen bapurau newydd yn dirywio'n gyflym ac yn sgil hynny yn achosi cryn gur pen cadwriaethol i'r llyfrgelloedd a'r archifdai sydd yn rhoi lloches i gasgliadau ohonynt.

Rhaglen gynhwysfawr i restru, meicroffilmio a diogelu ar gyfer y dyfodol bapurau newydd lleol y Deyrnas Unedig a Gweriniaeth Iwerddon yw Newsplan. Cefnogir a hyrwyddir y rhaglen gan y Llyfrgell Brydeinig a'r Cynlluniau Taleithiol ac mae'n seiliedig ar gydweithio agos rhwng llyfrgelloedd ymchwil mawr, llyfrgelloedd cyhoeddus ac academaidd, archifdai, amgueddfeydd ac unrhyw unigolion neu sefydliadau sydd yn berchen ar gasgliad neu gasgliadau o bapurau newydd. Y mae hefyd yn rhoi cryn bwyslais ar geisio ennill ewyllys da a chydweithrediad y diwydiant papurau newydd.

Sefydlwyd Cynllun Newsplan Cymru gan Gynllun Taleithiol Llyfrgelloedd Cymru ac fe'i hariannwyd ar y cyd gan y Cynllun a'r Llyfrgell Brydeinig. Ym mis Gorffennaf 1989 penodwyd Mrs Beti Jones o Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn